

## Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll

Cofnodion Cyfarfod 28 Tachwedd 2017

**Presennol:** A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts, A. Jones, S. Edwards, G. Parry, G. C. Jones, Meirion Jones, Merfyn Jones, H. Huws, A. Williams, E. Parry  
R. Williams (Cyngorwr Sirol)

Dafydd Owen (clerc)

		Gweithred	Dyddiad
<b>1.0</b>	<b>Ymddiheuriadau:</b>		
	D. Jones,		
	Croesawyd R. Williams i'w gyfarfod cyntaf Cyngor Bro Llanfairpwll fel Cyngorwr Sirol		
<b>2.0</b>	<b>Datganiadau o Ddiddordeb.</b>		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb		
<b>3.0</b>	<b>Cyfrifon Mis Tachwedd 2017</b>		
<b>3.1</b>	Nodwyd bod ad-daliadau i A. Jones am archebu meicroffon i'r Cyngor Bro ar gyfer y noson garolau ac am archebu taflunydd i'r Neuadd Goffa. Diolchodd A. Mummery, iddo ar ran y Cyngor Bro am ei waith caled.		
<b>3.2</b>	J. Roberts yn nodi fod gwasanaeth Sul y Cofio wedi bod yn llwyddiant, ble casglwyd £131 ar y diwrnod tuag at y Royal British Legion		
<b>3.3</b>	Nodwyd bod angen diweddariad gan yr Arolygwr Mewnol ar be fydd trefniant Awdit flwyddyn nesaf.		
<b>3.4</b>	J. Roberts yn cynnig, G. Parry yn eilio, derbyniwyd fel rhai cywir		
<b>4.0</b>	<b>Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol</b>		
<b>4.1</b>	G. C. Jones wedi mynychu cyfarfod Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned ar 21 Tachwedd 2017. Roedd cyflwyniad wedi gwneud gan Jason Higgins am y sefyllfa PCSO's ar yr Ynys, ble roedd pawb yn cytuno does dim digon ohonynt o gwmpas. G. C. Jones wedi derbyn manylion cyswllt rhai sydd yn pob ardal yr Ynys, Clerc i drefnu rhoi ar y wefan.		
<b>4.2</b>	Cyllideb Cyngor Sir - G. C. Jones yn nodi fod yr ymgynghoriad yn dod i ben diwedd Rhagfyr 2017, ac yn cadarnhau fod £2m o doriadau wedi clustnodi. Cytunwyd i drafod yng Nghyfarfod Cyngor Bro ar 19 Rhagfyr 2017 a rhoi unrhyw sylwadau. H. Huws yn nodi fod toriadau i wasanaeth bws ysgolion fydd yn annheg.		
<b>4.3</b>	Grid Cenedlaethol - Nododd G. C. Jones o Gyfarfod y Fforwm fod y cais cynllunio Horizon wedi gwthio yn ôl blwyddyn sydyn dileu cais y Grid Cenedlaethol.		
<b>4.4</b>	Ffioedd Claddu Plant - Nododd G. C. Jones o'r Cyfarfod y Fforwm fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ni fydd ffioedd claddu i'w dalu i gladdu'r un plentyn o dan 15 oed yng Nghymru		
<b>4.5</b>	Ymgynghoriad Trydedd Bont - H. Huws yn nodi bod ymgynghoriad am fod yn lonawr ar y drydedd Bont, gyda thri diwrnod agored yn y Neuadd Goffa. Cytunwyd i drafod yng Nghyfarfod Ionawr y Cyngor Bro wedi cael y manylion o'r ymgynghoriad. R. Williams yn nodi fod y Cyngorwr Sirol wedi cyfarfod a Brif Beiriannydd y Cyngor a nodi fod y Grid yn pwysu i dwnelu o dan y Fenai. Hefyd yn nodi fod Horizon, wedi dysgu o brofiad Hinkley, yn edrych i sefydlu meysydd parcio mewn safleoedd ar yr ynys i greu 'park and ride' i weithwyr deithio i safle'r Orsaf Bŵer Wylfa.		
<b>4.6</b>	Llifogydd - Meirion Jones yn nodi fod y Cyngor Sir angen i bobl gadarnhau ble sydd wedi effeithio gan y llifogydd diweddar. H. Huws yn holi os fydd y Cyngor Sir yn rhannu'r data a fydd yn ddefnyddiol gyda chynnig sylwadau ar Geisiadau Cynllunio. Steve yn nodi fod y llifogydd wedi cael effaith ar yr A5 yn Llanfair, gan fod yr A55 wedi cae roedd traffig yn mynd trwy'r pentref. Meirion yn cadarnhau ei fod yn drafftio adroddiad i'r Cyngor Sir ar yr effaith ar Llanfair, cytunwyd i'r Cyngorwr Sir ymateb yn ffurfiol ar ran y Cyngor Bro	<b>M. Jones</b>	

<b>5.0</b>	<b>Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 31 Hydref 2017</b>		
<b>5.1</b>	J. Roberts yn cynnig, Meirion Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir		
<b>6.0</b>	<b>Materion yn codi o'r cofnodion</b>		
<b>6.1</b>	Twr Marcwis - Dim diweddariad pellach ar hyn o bryd	<b>A. M</b>	
<b>6.2</b>	Grant memorials fund am waith ar y cloc - A. Jones wedi trafod a'r contractwr fod y gwaith i barhau yn y flwyddyn newydd. Clerc i yrru cadarnhad swyddogol.	<b>D. Owen</b>	
<b>6.3</b>	Gwelliannau Pentrefol a sefydliad cymunedol - Cytunwyd i gynnal cyfarfod cyhoeddus yng Ngwanwyn 2018.	<b>D. Owen</b>	
<b>6.4</b>	Grantiau - Meryn wedi llenwi ffurflen gais Horizon ar gyfer y Neuadd Goffa, disgwyl sylwadau. Clerc a Cadeirydd i gwblhau'r manylion priodol a'i gyflwyno i Horizon.	<b>D. Owen a A. M</b>	
<b>6.5</b>	Trefniadau Nadolig - G. C. Jones, A. Jones a G. Parry wedi bod yn gweithredu, nodwyd fod paratodau yn eu lle yn barod am y Noson Garolau. S. Edwards yn cynnig Hosbis yn y Cartref fel Elusen i wneud casgliad iddynt, J. Roberts yn eilio, cytunwyd i'r cynnig.		
<b>6.6</b>	Cysgodfa Bws ger Carreg y Bran - S. Edwards wedi trafod gyda H. Percy o'r Cyngor Sir, ac mae wedi derbyn dyluniadau ac amcan brisiau ar e-bost i weld os oes sylwadau. Cytunwyd i gadw ar y cofnodion a thrafod yn Cyfarfod Rhagfyr y Cyngor Bro. A. Jones yn nodi fod gordyfiant wrth y Gysgodfa ac angen rhoi cwyn i mewn.	<b>S. Edwards a D. Owen</b>	
<b>6.7</b>	Biniau Baw Ci - Angen gofyn i'r Cyngor Sir os oes modd cael mwy o finiau baw ci. Hefyd nodwyd bod angen symud bin sbwriel du wrth allanfa'r Co-op gan ei fod yn effeithio gweledd ac yn beryg.	<b>D. Owen</b>	
<b>6.8</b>	Ty Stesion - A. Jones wedi trafod gyda Rheolwraig Pringles, ac yn nodi eu bod yn barod i baentio a rhoi goleuadau tu allan i'r adeilad. Hefyd gofynnwyd i'r Cyngor Bro yrru cynlluniau ymlaen o ba waith y gall y Cyngor Bro ei wneud.		
<b>7.0</b>	<b>Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Meysydd Chwarae 21/11/17</b>		
<b>7.1</b>	Nodwyd siom fod safle'r cyfarfod wedi newid munud diwethaf. Cytunwyd o hyn ymlaen bod dyddiadau is-bwyllgorau ddim yn cael eu newid.		
<b>7.2</b>	A. Williams yn cynnig a. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir		
<b>8.0</b>	<b>Materion yn codi o'r cofnodion</b>		
<b>8.1</b>	Cais Cynllunio Hen Lon Dyfnia - A. Mummery wedi cysylltu gyda Linda Lee o'r Adran Polisi Cynllunio ac yn gofyn am arweiniad. Cytunwyd i'r Cyngor Bro wrthod y cynnig gwreiddiol a gofyn am o gwmpas £2,000 y tŷ sydd yn fwy gweddus. Hefyd gofyn am sut mae'r ffigwr y cynnig gwreiddiol wedi ei weithio allan.	<b>A. M a D. Owen</b>	
<b>9.0</b>	<b>Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Neuadd Goffa 21/11/17</b>		
<b>9.1</b>	A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir		
<b>10.0</b>	<b>Materion yn codi o'r cyfarfod</b>		
<b>10.1</b>	Calendr defnyddwyr y Neuadd Goffa - A. Jones a S. Edwards wedi paratoi calendr ac mae yn fyw ar wefan y Cyngor Bro.		
<b>10.2</b>	Ymgyrch codi arian - A. Mummery wedi gofyn i DEWIS am y cynlluniau i ailwampio'r Neuadd sydd wedi paratoi gan DEWIS ynghynt. Cytunwyd i Bwyllgor y Neuadd Goffa drafod cynlluniau'r Neuadd, unai i ailwampio neu ail adeiladu wedyn dilyn i fyny gyda Chyfarfod Cyhoeddus os mai'r penderfyniad fydd i ail-wapio. A. Mummery am yrru e-bost gyda'r cynlluniau ymlaen.	<b>A. M</b>	
<b>10.3</b>	Laptops ychwanegol - Wedi llwyddiant y dosbarthiadau cyfrifiaduron, nodwyd fod angen tair laptop ychwanegol i ateb gofynion. A. Williams yn cynnig, S. Edwards yn eilio, cytunwyd i'r Cyngor Bro archebu tair laptop.	<b>D. Owen</b>	
<b>11.0</b>	<b>Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 21 Tachwedd 2017</b>		
<b>11.1</b>	A. Jones yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir		
<b>12.0</b>	<b>Materion yn codi o'r cyfarfod</b>		
<b>12.1</b>	Nodwyd fod y goeden Nadolig yn cael ei danfon ar 1af Rhagfyr 2017 a bydd aelodau a swyddogion yno i ardduno.		

<b>13.0</b>	<b>Ceisiadau Cynllunio</b>		
<b>13.1</b>	Cais llawn ar gyfer dymchwel garej, ac altro ac estyniadau a fydd yn cynnwys ystafell ymolchi newydd, dwy ystafell wely, ystafell amlbwrpas ac ystafell haul yn 37 Pant Lodge, Llanfairpwll - Dim sylwadau		
<b>14.0</b>	<b>Gohebiaeth</b>		
<b>14.1</b>	Cylchgrawn Clerks and Councils Direct - Derbyn y wybodaeth		
<b>14.2</b>	Cylchgrawn Dan Do Môn - Derbyn y wybodaeth		
<b>14.3</b>	Cyngor Sir - Penderfyniadau Cynllunio - Derbyn y wybodaeth		
<b>15.0</b>	<b>Materion Brys</b>		
<b>15.1</b>	Nodwyd bod angen gwneud cofnodion yn y Saesneg yn unol â pholisi iaith y Cyngor Bro yn fisol		
<b>15.2</b>	Cytunwyd i gofnodion cael eu gyrru allan saith diwrnod cyn bod cyfarfod o hyn ymlaen	<b>D. Owen</b>	
<b>15.3</b>	Cytunwyd i'r clerc baratoi rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd 2018 a'i ddsbarthu erbyn Cyfarfod Rhagfyr	<b>D. Owen</b>	

**Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 19 Rhagfyr 2017 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa**

132

Arwyddwyd..... (Cadeirydd) ..... Dyddiad